**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 30ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor V. Smith (Vice Chairman)

County Councillors: D. Dovey, A. Easson, P. Watts and D. Blakebrough

Also in attendance County Councillor(s):

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Rachel Jowitt | Head of Waste & Street Services |
| Paula Harris | Democratic Services Officer |
| Nigel Leaworthy | Commercial & Operations Manager |
| Carl Touhig | Recycling Strategy and Business Manager |

**APOLOGIES:**

County Councillors S. Jones, A. Webb and S. White

1. **Nodi penodiad y Cadeirydd Select**

Penodwyd y Cynghorydd Sir Simon Howarth fel Cadeirydd.

Gan ei bod yn Ganmlwyddiant Brwydr y Somme, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gofio'r bywydau a gollwyd mewn brwydr a chynhaliodd funud o ddistawrwydd.

2. **Ethol Is Gadeirydd**

Penodwyd y Cynghorydd Sir Tony Easson fel Is-gadeirydd.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniasom ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sir S. White, A. Webb, S. Jones a Hazel Llett.

Cododd y Cadeirydd bwynt o eglurder ynghylch presenoldeb yn y Pwyllgor. Tristawyd y Cadeirydd at y diffyg presenoldeb a'r diffyg ymddiheuriadau gan rai Aelodau ac addawodd fynd i'r afael â hyn drwy siarad ag Arweinydd y Cyngor.

4. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 30ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

5. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf a gynhaliwyd ar 28ain Ebrill 2016 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**5.a Fforwm Agored y Cyhoedd**

Ymunodd Carl Thomas ac Ian Hodgkinson o Dafarn y Glascoed â ni. Roeddent wedi cysylltu â'u haelod lleol, Val Smith, parthed cyflymder traffig ar heol y A472, yr heol y tu allan i'w tafarn.

Roeddent yn eiddgar i hyrwyddo'u busnes a gyda 7 erw o dir maent yn edrych i fwyhau'r defnydd o'r Dafarn a'i dir. Dywedasant fod cymdogion yn aml yn ei chael yn anodd tynnu allan o lonydd eu heiddo o ganlyniad i ddiffyg gwelededd, gyda'r cloddiau yn eu rhwystro rhag gweld yr heol yn glir a gofynasant am well arwyddion a'r posibilrwydd o osod camera cyflymder.

Gofynasant hefyd a allai'r Cyngor sicrhau y torrir y borfa a chynnal a chadw'r weirglodd a'r gwrthglawdd o Bentref Glascoed i Neuadd y Sir.

Dywedodd yr Aelod Etholedig dros yr ardal nad oedd wedi ymlwybro ymhellach â'r mater yn ddiweddar ond roedd yn pryderu dros y preswylwyr a'u gofidiau.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweithgareddau a oedd data ar gael i'r heol hon, megis Asesiad o Effaith ar Draffig. Atebodd y Pennaeth Gweithgareddau y byddai'n dychwelyd i'r Pwyllgor gyda gwybodaeth bellach. **(GWEITHREDU R.H.)**

6. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf**

Cyd-destun:

Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i Aelodau ar arolygon sefyllfa refeniw alldro'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod cofnodi 4 sy'n cynrychioli'r sefyllfa alldro ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

Caiff yr adroddiad ei ystyried hefyd gan aelodau'r Pwyllgor Dethol fel rhan o'u cyfrifoldeb i:

- asesu a yw monitro effeithiol o'r gyllideb yn digwydd,
- fonitro i ba raddau y caiff cyllidebau eu gwario yn unol â'r fframwaith cyllideb a pholisi a gytunwyd,
- herio rhesymoldeb garariannu neu danariannu rhagamcanol, a
- monitro a gyflawnwyd yr enillion effeithlonrwydd neu'r cynnydd a ragwelwyd mewn cysylltiad â chynigion o arbedion.

Materion Allweddol ac Argymhellion:

Bod Aelodau'n ystyried tanwariant refeniw alldro net o £676,000, gwelliant o £878,000 ar ragolygon alldro chwarter 3.

Mae Aelodau yn ystyried gwariant alldro cyfalaf o £18.3m yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £18.8 miliwn, ar ôl llithriad arfaethedig o £43.7 miliwn, yn arwain at danwariant net o £508,000, y mae

oddeutu £433,000 ohono ar gael i'w ailgylchu at brosiectau/flaenoriaethau eraill, yr argymhellir ei ddal nes adolygu'r pwysau ychwanegol.

Ystyried a chymeradwyo'r llithriad cyfalaf o £43.7miliwn a argymhellir, gan roi sylw i'r cynlluniau hynny a gynhwysir ym mharagraff 3.5.4 lle gwnaed cais am lithriad gan y rheolwr gwasanaeth, ond na chaiff ei argymell i lithro (£170,000), a nodi lefel sylweddol y llithriad sy'n ofynnol ar alldro heb ei amlygu'n gynt yn y flwyddyn, sy'n tanlinellu pryder parthed rhagolygon cyfalaf y rheolwyr i'r dyfodol.

Ystyried y defnydd o arian wrth gefn arfaethedig a nodi'r gostyngiad sylweddol ar lefelau'r arian wrth gefn a glustnodwyd ar ddiwedd 2015-16 a'r arwydd tebygol ar ddiwedd 2016-17.

Cymeradwyo ailddyrannu mantolenni'r arian wrth gefn, yn unol â pharagraff 3.9.5 yn dilyn yr adolygiad actiwaraidd o'r arian yswiriant wrth gefn ac adolygiad o'r mantolenni arian wrth gefn bychain eraill er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau ar yr arian wrth gefn a'r dosbarthiad o dan wariant cyffredinol wrth ategu lefelau'r arian wrth gefn fel a ganlyn:

- £1,037 miliwn i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Diswyddiadau a Phensiynau
- £419,000 i arian wrth gefn TG
- £350,000 i arian wrth gefn Buddsoddi i Ail-ddylunio

Cymeradwyo'r defnydd o arian wrth gefn Buddsoddi i Ail-ddylunio yn ystod 2016-17 sy'n gwneud cyfanswm o £30,835 fel cyfraniad ychwanegol Cyngor Sir Fynwy er mwyn galluogi'r gwaith ar fenter y Fargen Ddinesig i barhau.

<u>Craffu Aelodau:</u>

Diolchodd Aelod i'r Swyddog am yr adroddiad ac ymatebodd i'w chais am wybodaeth yn ebrwydd ac yn effeithiol. Gan fod gan yr Aelod gwestiynau penodol a ddymunai ofyn i'r Swyddog, gofynnodd yr Aelod a allai siarad ag ef yn bersonol ar ddyddiad hwyrach.

Codwyd cwestiwn llithriad a theimlai'r Aelodau y dylid defnyddio gwell blaengynllunio yn y dyfodol. Atebodd y Swyddog i ffigyrau gael eu heffeithio'n arwynebol ar hyn o bryd gan agenda ysgolion y dyfodol.

Holodd Aelod faint o staff wnaed yn ddi-waith. Atebodd y Swyddog i 102 gael eu gwneud yn ddi-waith yn 2015/16; 99 o ddiswyddiadau gorfodol a 3 phecyn gadael arall.

Gofynnodd Aelod a oedd Swyddogion yn ymwybodol o'r angen i greu arbedion drwy Gyngor Sir Fynwy yn gyfan. Atebodd y Swyddog y byddai symud i gynllun arbedion canran, i arbedion mandad, yn gwneud materion yn llai amlwg.

Gofynnodd Aelod pa newidiadau a wnaed gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De-ddwyrain Cymru. Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Gweithrediadau fod ffurf y cytundeb, y cyswllt blaenorol wedi cychwyn yn Ebrill 2016. Gofynnir i Asiantaeth Cefnffyrdd De-ddwyrain Cymru gan Lywodraeth Cymru i dorri costau sy'n effeithio CSF.

Holwyd paham y bu costau ychwanegol am gyfleuster dau berson yn y Ganolfan Groeso. Dywedodd Swyddog wrth y Pwyllgor, oherwydd ymddygiad annerbyniol gan aelodau'r cyhoedd roedd yn anniogel i un aelod o staff fod ar y safle ar ei ben/phen ei hun.

Codwyd cwestiwn ynghylch y mandadau a gwnaed sylw yr ymddangosai rhai o'r ffigyrau yn afreal heb gynllun o gwbl a phwysleisiwyd yr angen i osod targedau realistig o fewn terfynau amser.

Codwyd pryderon ynghylch y toiledau a gofynnwyd i Uwch Swyddog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod a oedd prosiect Ysgol Gyfun Trefynwy yn mynd yn ei flaen fel y dylai. Dywedwyd wrthym fod y prisiau tendro a dderbyniwyd yn Ionawr oddeutu £5miliwn yn fwy na'r amlen gyllido y mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar y cyd wedi cytuno. Rydym ar hyn o bryd yn edrych i adolygu'r cynllun. Mae cynllun Cil-y-Coed yn mynd yn ei flaen yn ôl y tendr gwreiddiol, a golygai hyn fod yn rhaid symud peth arian o gynllun Trefynwy i gynllun Ysgol Cil-y-Coed.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y brydles newydd wedi'i harwyddo ar gyfer y farchnad wartheg yn Rhaglan. Atebodd y Pennaeth Gweithrediadau nad oedd y Cyngor wedi cwblhau'r safle'n ymarferol hyd yn hyn, felly mae'r cynnal a'r cadw a'r paratoi, yn rhannol o system ddŵr brwnt yn dal i gael eu datblygu. Gofynnwyd faint o arian refeniw, rent a threthi roedd CSF wedi derbyn hyd yma. Atebodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid ein bod wedi derbyn siec chwe ffigwr oddi wrth yr Arwerthwyr, a ddychwelwyd iddynt fel y gallent ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y strategaeth o swm y rhent a dalant yn y dyfodol. Gofynnodd y Swyddog a ellid atal trafodaeth ar y pwnc hwn am fod cadarnhau'r rhent yn fater masnachol sensitif. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n anfon llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygiad i graffu'r prosiect hwn.

Cwestiynodd Aelod sefyllfa CSF gyda Wormtec. Atebodd y Swyddog ei bod yn methu a chadarnhau'r ffigyrau am fod y wybodaeth yn fasnachol sensitif. Roedd CSF yn ddyledwr gwael a dan gyfrifon 2014/15 dilëwyd y ddyled. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi talu am y bwyd gwastraff na chafodd ei drin pan ddaeth Wormtec i ben ac nad oedd costau i Gyngor Sir Fynwy. Esboniwyd bod atebolrwydd am y tir yn gorwedd gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Chyfoeth Naturiol Cymru a chadarnhaodd nad oedd gan Gyngor Sir Fynwy gyfrifoldeb ariannol na chytundebol.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r atebion i'w cwestiynau ar reoli'r gyllideb, fodd bynnag mynegwyd gofidiau ynghylch gwireddu'r arbedion ar doiledau cyhoeddus a chytunwyd y deuid ag adrodd cynnydd ar yr adolygiad o doiledau cyhoeddus i gyfarfod yn y dyfodol.

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygiad parthed y brydles newydd ar gyfer y farchnad wartheg yn Rhaglan i ofyn a allai'r Pwyllgor graffu'r cynnydd a wneir.

## 7. <u>Dyfodol y Contract Safle Amwynder Dinesig</u>

<u>Cyd-destun:</u>

Derbyniasom adroddiad gan y Rheolwr Strategaeth Ailgylchu a Busnes i gynghori'r Pwyllgor ar y ffordd ymlaen arfaethedig i gytundeb Dragon Waste.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 30ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

Materion Allweddol:

Drwy gydol yr Adolygiad ar Ailgylchu gwnaed cyfeiriad at ddyfodol ein Safleoedd Amwynder Dinesig a'n Gorsafoedd Trosglwyddo a sut y dônt i ateb y diben yn weithredol ac yn ariannol i ategu'n darpariaeth casglu ar garreg y drws a sicrhau bod cynnig ailgylchu cynaliadwy o safon uchel ar gael i breswylwyr Sir Fynwy.

Er eglurder, mae cytundeb cyfredol Dragon Waste yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:

- Rheoli a gweithredu 4 Safle Amwynder Dinesig* (Llanffwyst, Pum Lôn**, Troddi a Brynbuga sydd ym mherchnogaeth CSF ac a reolir gan Dragon Waste)
- Rheoli a gweithredu 2 Orsaf Drosglwyddo– Llanffwyst a Phum Lôn
- Cludo gwastraff gweddill i Brosiect Gwyrdd Ynni o Wastraff ym Mharc Trident, Caerdydd.

(* y term cyfreithiol ar y safleoedd yw Amwynder Dinesig. Fe'u hadwaenir yn fwy cyffredin fel Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig ac felly fe gyfeirir atynt yn y modd hwn drwy gydol y papur.
** mae safleoedd Llanffwyst a Phum Lôn dan brydlesau cynnal a chadw llawn i Dragon Waste lle mae Troddi Brynbuga ym mherchnogaeth CSF ac yn cael eu rheoli ar ein rhan gan Dragon Waste.)

Mae hwn yn gytundeb hen iawn ac wedi datblygu dros amser fel mae deddfwriaeth a blaenoriaethau'n newid.

Yn 1994, ffurfiodd Cyngor Sir Fynwy a Terry Adams gwmni cyd-fentro (CCF), Dragon Waste, i weithredu a rheoli gwaredu gwastraff a'r Safleoedd Amwynder Dinesig. Roedd hyn yn ymateb i ddeddfwriaeth nad oedd mwyach yn caniatáu Awdurdodau Lleol i weithredu Safleoedd Amwynder Dinesig a'r canlyniad oedd sefydlu Cwmnïau Cyd-fentro neu Gwmnïau Gwaredu Gwastraff *hyd braich* yr Awdurdod Lleol.

Gwerthodd Terry Adams ei gyfranddaliadau i Viridor ac ers yr 1990au hwyr mae Viridor wedi parhau'n brif gyfranddaliwr (81%) Dragon Waste.

Yn 2014 ail-drafodwyd y cytundeb gyda Viridor i ganiatáu trosglwyddiad llyfn i Brosiect Gwyrdd, gosod costau rheoli tryloyw i alluogi cyflawni unrhyw gaffaeliad yn y dyfodol ar sail wirioneddol gymharol, cytundeb ailgylchu sy'n ateb y diben ac arbedion ar draws y cytundeb. Daethpwyd â chanlyniad y drafodaeth hon gerbron y Pwyllgor Dethol cyn ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Hydref 2014.

Mae Viridor hefyd yn dal y cytundeb organig ar gyfer ailgylchu gwastraff organig a gasglwyd ar garreg y drws. Mae'r cytundeb hwn yn gorwedd y tu allan i'r papur hwn gan fod y Pwyllgor Dethol a'r Cyngor eisoes wedi penderfynu ar ddyfodol hir dymor gwastraff organig ac wedi cytuno i bartneriaeth gyda Rhaglen Treulio Anaerobig Blaenau'r Cymoedd a fydd yn cychwyn o Ebrill 2018.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu awdurdodau lleol i weithredu'u safleoedd eu hunain bellach wedi'i diddymu ac mae'r cyfle i redeg y safleoedd Amwynder Dinesig yn fewnol yn ddewis y mae rhai cynghorau wedi'i fabwysiadu.

Craffu Aelodau:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 30ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

Cwestiynwyd a fyddai unrhyw faterion ymarferol neu anymarferol i'w hystyried parthed yr awgrymiadau i wella perfformiad megis agor bagiau du preswylwyr neu wneud rhai safleoedd yn rhai ailgylchu'n unig drwy gyfyngu ar waredu gwastraff bagiau du. Dywedwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gweithredu mesurau o'r fath heb i unrhyw gynnydd mewn gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon gael ei gofnodi, yn bennaf drwy hysbysebu a chyhoeddusrwydd cynhwysfawr.

Cadarnhawyd bod dadansoddiad dienw o gynnwys bagiau du wedi dynodi bod 50% o'r cynnwys yn wastraff bwyd neu wastraff y gellir ei ailgylchu a'r casgliad oedd bod mwy i'w wneud i weithio tuag at y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i ailgylchu 70%.

Cwestiynwyd sut bydd ailgyflwyno bagiau llwyd yn annog gwell defnydd o wastraff bagiau du. Adroddodd y Swyddog fod cynnydd yng ngwastraff gweddill carreg y drws yn unol â'r cynnydd mewn gwastraff yn gyffredinol a bod dadansoddiad casglu yn cael ei gyflawni i ddynodi'n ddienw beth gaiff ei ailgylchu gan breswylwyr yn y bagiau du/llwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn, hysbyswyd Aelodau bod gwybodaeth ymchwil ar gael, (er enghraifft, o WRAP UK) sy'n ymchwilio i rwystrau rhag ailgylchu. Awgrymodd Aelod ddarparu rhaglen addysg i roi gwybodaeth barhaus i breswylwyr yn hytrach na dibynnu ar chwiliadau ar-lein. Atebodd y Swyddog, yn anochel, nad yw rhai pobl yn cymryd rhan a ffocysir y gwaith ar gyrraedd ardaloedd anodd eu cyrraedd lle nad yw unigolion yn cyfranogi. Mae'r gwaith hwn yn gyfyngedig oherwydd argaeledd adnoddau. Daethpwyd i'r casgliad bod y mwyafrif o breswylwyr yn ailgylchu a chytunwyd hefyd ei bod yn bwysig cadw prosesau'n syml, gyda chyn lleied â phosibl o newidiadau i sicrhau bod y preswylwyr sydd ar hyn o bryd yn ailgylchu, yn parhau i wneud hynny.

Awgrymodd Aelod ehangu'r broses dendro i fwy nag un contractwr.

Cwestiynodd Aelod a oedd y canolfannau ailgylchu yn Llanfihangel Troddi, Trefynwy a Brynbuga yn rhy fach, fel mae casglu sbwriel yn cael ei fethu ac a ymchwiliwyd i safleoedd amgen, gan gynnwys y posibilrwydd o sefydlu un safle rhwng Brynbuga a Threfynwy. Yn ychwanegol cwestiynwyd a fyddai ehangu'r rhychwant arfaethedig o gynhyrchion i wneud elw o'u casglu yn safleoedd Caerwent a Phum Lôn yn cyfiawnhau'r gwariant. Yn olaf, gwnaed sylw ar ansawdd wael y bagiau bwyd. Eglurodd y Swyddog i waith dichonoldeb gael ei wneud yn safle Mihangel Troddi ar dir ym mherchnogaeth CSF y tu ôl i'r Ganolfan. Amcanwyd y byddai darparu'r cyfleusterau yn debyg i gyfleusterau safle Llanffwyst yn gost cyfalaf o £1.8milwn. Amcangyfrifwyd, ar sail y tunelli gwastraff a ddeuai i'r safleoedd, na fyddai'r cynnydd mewn ailgylchu a'r gostyngiad mewn gwastraff gweddill yn ateb y gost o fenthyca cyllid i wella'r safle ac na fyddai'n cael effaith ddigonol ar dargedau ailgylchu. Atgoffwyd Aelodau mai'r targed gwelliant yw 76%.

Ynghylch yr awgrym i sefydlu un safle i ddisodli'r canolfannau ailgylchu ym Mrynbuga a Threfynwy, gan ffafrio un safle rhwng y ddau leoliad, eglurodd y Swyddog nad oedd safle wedi'i ddynodi ac nad oedd darpariaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd. Byddai hyn yn fater ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

Eglurodd y Swyddog fod ehangu safle Pum Lôn yn cyfeirio at ehangu'r sied ar gyfer yr orsaf drosglwyddo, nid y rhychwant o ddeunyddiau. Ychwanegwyd y bwriedir cynnal trafodaeth gyda'r farchnad i weld sut y gellir mwyhau cyfleoedd ar y safle.

Gwnaeth Aelod sylw nad yw lleoliad y ganolfan ailgylchu ym maes parcio Stryd Maryport ym Mrynbuga yn ddelfrydol gan ei fod yn rhy fach, y maes parcio'n brysur, lleiniau parcio wedi'u colli, anhawster i'r lorïau sgip wasanaethu'r cyfleuster a'r grisiau'n anaddas i rai defnyddwyr

gwasanaeth. Gofynnodd yr Aelod am ail-leoli'r safle gael ei ystyried. Cynghorodd y Swyddog bod argaeledd cyfalaf yn gyfyngedig.

Trafododd yr Aelodau effaith datblygu tai a hysbyswyd hwy na ddarperir unrhyw gyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r galw am wasanaethau. Codir y pwynt hwn gyda swyddogion perthnasol. Cwestiynodd y Cadeirydd a oedd yn bosibl codi arian ychwanegol drwy dreth amgylcheddol. Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio ffyrdd arloesol o gyllido ailgylchu gwastraff (er enghraifft cyfrifoldeb y cynhyrchydd). Gwnaed sylw bod Cadw Cymru'n Daclus yn gweithredu cynllun peilot dychwelyd blaendal a bod Grŵp Swyddogion Cymru gyfan yn cefnogi'r cysyniad, ond nad yw Llywodraeth Cymru'n gefnogol ar hyn o bryd.

Darparodd Swyddog adborth ar y bagiau bwyd cyfredol gan egluro y cânt eu gweithgynhyrchu o flawd grawn yn y Deyrnas Unedig i'r safon Nod Barcud Prydeinig. Eglurwyd eu bod yn rhatach na'r bagiau gwyrdd a brynwyd yn flaenorol a gafodd eu gwneud o startsh tatws. Yn dilyn rhai cwynion ynghylch ansawdd y bagiau newydd cysylltwyd â'r gweithgynhyrchydd a disodlwyd y bagiau o safon anaddas â chynnyrch o ansawdd uwch; monitrir yr ansawdd. Atgoffwyd Aelodau bod arbediad o £30,000 drwy brynu'r bagiau newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y dadansoddiad casglu yn dynodi bod gwastraff bwyd yn bennaf yn cynnwys bwyd bwytadwy sydd y tu hwnt i'w dyddiad gwerthu erbyn, i'w dyddiad gorau erbyn neu ddyddiad defnyddio erbyn. Mae gweithgynhyrchwyr bwyd yn ystyried ffyrdd o egluro'n well hirhoedledd a diogelwch bwyd gyda symiau cyfyngedig o wastraff y gellir ei gompostio (tocion/crafion llysiau, bagiau te ac ati). Gwahoddwyd Aelodau i ymweld â'r ganolfan ailgylchu ar gyfer yr ymarfer casglu i weld drostynt eu hunain y mathau o wastraff a waredwyd gan breswylwyr.

Gofynnodd y Cadeirydd paham nad oedd unrhyw fwriad i ailgyflwyno derbyn bagiau coch a phorffor mewn gorsafoedd trosglwyddo. Eglurodd y Swyddog fod y ddarpariaeth hon wedi bod ar gael ym mhob safle ond dangosodd dadansoddiad fod aelodau'r cyhoedd yn defnyddio'r cyfleuster fel cyfleuster gwastraff ychwanegol, er enghraifft, yn cynnwys sachau o garreg y drws â sticeri'n nodi llygredd. Tynnwyd y cyfleuster gan fod adborth oddi wrth y contractwr yn dangos enghreifftiau o unigolion yn ymddwyn yn anaddas ac yn ormesol wrth gael eu herio. Ychwanegwyd y byddai angen ymgynghori â phreswylwyr i weld sut y gellir ailgyflwyno'r gwasanaeth fel y bydd ar gael iddynt.

Argymhellion:

Cytunwyd yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad

**Casgliad y Pwyllgor:**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynhwysfawr a nododd yr Aelodau'r cynnydd a wnaed a derbyn argymhellion yr adroddiad. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad rheolaidd o gynnydd yng nghyswllt rhaglen bartneriaeth Treulio Anaerobig Blaenau'r Cymoedd.

## 8. Adolygu Ailgylchu a Chynlluniau Gweithredu

Cyd-destun:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 30ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

Er mwyn diweddaru'r Pwyllgor Dethol ar y casgliadau ailgylchu peilot y bwriedid eu cychwyn ym Medi eleni ac er mwyn i Aelodau nodi a gwneud sylw ar y cynigion ar gyfer yr arbrawf ar gyfer yr Adolygiad Ailgylchu fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor a'r Cabinet.

Materion Allweddol:

Mae'r adolygiad ailgylchu wedi bod gerbron y Pwyllgor Dethol sawl gwaith. Cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn dod gerbron yr Aelodau gyda manylion y cynllun peilot a gymeradwywyd fel bod dealltwriaeth lawn o'r hyn roeddem yn ei gynllunio o flaen adroddiadau pellach yn gynnar yn 2017 gydag argymhelliad terfynol i'r awdurdod. I grynhoi bydd y cynllun peilot:

-  Yn symud gwydr o'r bagiau porffor a'u casglu ar wahân
-  Y bagiau coch a phorffor i aros ar wahân ar gyfer yr arbrawf
-  Y gwastraff bwyd a gardd i'w gasglu fel ar hyn o bryd, gan gydnabod bod ymrwymid eisoes i'w casglu ar wahân
-  Gwastraff gweddill – bob pythefnos a 2 fag (gweler isod y cynnig i ailgyflwyno bagiau llwyd)

Mae'r ardal beilot wedi'i mapio, yn amodol ar adolygiad manwl o fynediad i gerbydau.
Dangosir y cylchoedd casglu yn atodiad 1. Fel y cofnodwyd yn flaenorol, roedd y cynllun peilot i'w leoli o gwmpas Gorsaf Drosglwyddo Llanffwyst oherwydd bod y safle'n gallu derbyn gwydr ar wahân heb yr angen am unrhyw fuddsoddiad mewn isadeiledd. Mae'r cynllun peilot yn cynnwys oddeutu 5,500 o gartrefi o fewn y Fenni, Gilwern, Llanwenarth, Goytre, Llanelen, Llanofer, Llangybi a Little Mill. Dewiswyd yr ardal hon am ei bod yn cynrychioli trawstoriad demograffig da o'r Sir ac mae'n cynnwys cymysgedd o ardaloedd dinesig, lled-ddinesig a gwledig.

Rydym yn dal i drafod gyda'r farchnad i benderfynu'r fanyleb derfynol ar gyfer y cerbyd peilot ond ein nod yw sicrhau cerbyd tair ffrwd gyda choden ar gyfer gwydr a chorff sy'n rhannu er mwyn casglu bagiau coch a phorffor ar wahân.

Mewn cyfarfodydd blaenorol pryderai'r Aelodau am y cynhwysydd a ddefnyddir i gasglu gwydr. Cynhaliwyd ymchwiliadau pellach a chredwn y dylid casglu gwydr mewn blwch. Paham? Rydym wedi ymchwilio i'r defnydd o flwch ynghyd â bag yn debyg i hesian y gellir ei ailddefnyddio gyda'n criwiau, awdurdodau eraill, ein swyddog Iechyd a Diogelwch gyda Chyngor Sir Fynwy ac ymgynghoriaeth Iechyd a Diogelwch allanol. Yr adborth a dderbyniwyd o bersbectif iechyd a diogelwch yw bod blwch yn fwy addas am nifer o resymau:

-  Bagiau – rhoddir straen ar un ysgwydd wrth gario/lwytho, Blwch – gwell technegau wrth godi, osgo ac ystum da, pwysau'n cael ei ddosbarthu rhwng y ddwy fraich.
-  Bagiau – posibilrwydd i lwythwyr gael eu hanafu oherwydd agosrwydd y bag yn ystod ei wacáu a pherygl i'r gwydr dorri.
-  Bagiau – Dim gwytnwch i gefnogi'r llwythwr yn ystod gwacáu, y blwch yn fwy gwydn, yn annhebygol o dorri, felly llai o berygl i'r llwythwr gael ei anafu.
-  Bagiau – Mwy o berygl iddynt chwythu i ffwrdd a sarnu ar y palmentydd.
-  Bagiau – Graddfa uwch o ddisodli o ganlyniad iddynt chwythu i ffwrdd a'u parhad yn fyr-dymor – amcangyfrifir oes bag yn 2-3 blynedd, blwch hyd at 10 mlynedd.

Teimla swyddog CSF fod y bagiau'n ormod o berygl iechyd a diogelwch i'n llwythwyr ac maent felly'n cynnig nad ydym y parhau i drafod y dewis hwn ymhellach.

Tra gallai fod pryderon ynghylch amwynder gweledol a'r olygfa ar y stryd, rhaid i ni gofio ein bod yn symud gwydr o'n ffrwd ailgylchu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith bresennol tra rydym yn cynnal cyfanrwydd y gwasanaeth coch a phorffor sydd eisoes yn bodoli.

Rydym hefyd yn argymell bod ailgyflwyno'r bagiau llwyd yn digwydd o fewn yr ardal beilot yn ystod yr arbrawf. Gyda'r duedd gyfredol o gynnydd mewn gwastraff gweddill (ar y cyfan aeth gwastraff gweddill i fyny 10% yn 2015/16 o gymharu â 2014/15), byddai'n fuddiol mesur a fyddai

ailgyflwyno a gorfodi defnyddio'r bagiau llwyd yn cael effaith gadarnhaol yn nhermau lleihau gwastraff gweddill a gyflwynir ar garreg y drws a/neu gynnydd mewn ailgylchu.

Craffu Aelodau:

Cwestiynodd Aelodau'r ysgogiad y tu ôl i gynllun peilot y blwch gwyrdd a'r gost ynghlwm wrtho, a sut y mesurir llwyddiant yr arbrawf cyn ystyried cyflwyno'r cynllun ar hyd a lled y sir. Eglurodd y Swyddog y bydd cost yr arbrawf tua £40,000. Mae hyn yn cynnwys rhai staff ychwanegol a phrynu cerbyd â'r cefn yn gwahanu gyda choden yn defnyddio siasi RCV. Eglurwyd bod posibilrwydd haneru'r gwastraff i'r Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau ac o ganlyniad lleihad mewn costau, a'r posibilrwydd o arbed £250,000 y flwyddyn. Yn ychwanegol, bydd gwahanu gwydr yn caniatáu i'r gwydr gael ei ailgylchu yn hytrach na mynd i agregau, nid y canlyniad gorau'n amgylcheddol, nac yn nhermau amcanion Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol CSF. Eglurodd y Swyddog y dangosid llwyddiant drwy welliant mewn targedau perfformiad ailgylchu (neu ddim newid am fod gan Gyngor Sir Fynwy berfformiad da mewn ailgylchu ar garreg y drws), gwelliannau ym mherfformiad ariannol y gwasanaeth a'r canlyniadau ailgylchu amgylcheddol gorau.

Mynegodd y Cadeirydd fod perygl i fuddsoddiad os nad yw'r preswylwyr yn gwahanu'r gwydr ac awgrymodd gynllun cyfathrebu. Ymatebodd y Swyddog y gwneir ymdrechion i ymgysylltu â'r preswylwyr sy'n rhan o'r arbrawf gan gynnwys presenoldeb swyddogion yn yr ardal a hefyd dadansoddiad casglu i fonitro cynnydd.

Beirniadodd Aelod y cynigion fel cyfrwng llechwraidd i ddychwelyd i flychau, bod yr ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ddigyfnewid a'n bod yn boddio'r farchnad. Eglurodd y Swyddog iddynt ymchwilio i opsiwn trydydd bag ond cafwyd ef yn anaddas i'w dderbyn gan y farchnad. Trafododd yr Aelodau nad oeddent yn gyffredinol yn ffafrio blychau. Eglurodd y swyddog fod y farchnad eisiau prynu gwydr rhydd heb ei dorri, ac eglurodd y problemau sy'n gysylltiedig â phlastig neu fagiau y gellir eu hailgylchu. Cadarnhawyd bod y Cabinet eisoes wedi cymeradwyo'r cynllun peilot ac os bydd yr arbrawf yn aflwyddiannus, ceisir cynlluniau amgen.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ddod â diweddariad i'r Pwyllgor Dethol ar y cynllun peilot ar y casgliadau ailgylchu y bwriedir ei gychwyn ym Medi eleni. Gwnaeth Aelodau sylwadau ar y cynigion ac roeddent yn dal heb eu hargyhoeddi fod gan y blychau du fanteision digonol dros y sachau plastig. Cytunodd y Pwyllgor dderbyn diweddariad pellach ar ganlyniadau'r cynllun peilot maes o law.

## 9. Rheoli Mannau Agored Cyhoeddus

Cyd-destun:

Diben yr adroddiad yw ceisio barn y Pwyllgor ar y bwriad i gynnal adolygiad cynhwysol fydd yn penderfynu strategaeth Sir Fynwy yn y dyfodol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw mannau agored cyhoeddus ym mherchnogaeth CSF.

Materion Allweddol:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 30ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn berchen ac yn rheoli amrywiaeth o fannau agored sy'n cyfateb i oddeutu 4'030'000m² ynghyd â nifer o safleoedd cefn gwlad a threftadaeth, gaiff eu cynnal a'u cadw'n bennaf naill ai gan Gynnal a Chadw Tiroedd, a leolir o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau/Gweithrediadau Gwastraff a Stryd neu Dwristiaeth, Hamdden a Diwylliant yn y Gyfarwyddiaeth Fenter.

Craffu Aelodau

Croesawodd a derbyniodd yr Aelodau'r adroddiad.

| **Casgliad y Pwyllgor:**<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y strategaeth ar gyfer rheoli a chynnal a chadw mannau agored cyhoeddus ym mherchnogaeth CSF yn y dyfodol a chytunodd â'r cynigion a gyflwynwyd yn yr adroddiad ac roeddent yn fodlon i'r adroddiad fynd yn ei flaen i'r cyfarfod Cabinet cyfleus nesaf. |
|---|

**10. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Cymunedau Cryf**

Derbyniwyd yr eitem hon.

**11. Cabinet a'r Cyngor Ymlaen Gwaith Cynlluniwr**

Derbyniwyd yr eitem hon.

**12. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

21$^{ain}$ Gorffennaf 2016 am 10am

**The meeting ended at 1.48 pm**